

CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL

Tachwedd 2025



PAPUR CEFNDIR - BP34



Crynodeb Gweithredol

- i. Mae Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Bro Morgannwg yw bwriadu darparu 7,890 o anheddau newydd rhwng 2021–2036, gan gynyddu'r boblogaeth gan oddeutu 13,154 o bobl. Mae'r twf hwn yn gofyn am gynllunio gofalus i sicrhau bod cyfleusterau cymunedol digonol, gan gynnwys canolfannau cymunedol a mannau aml-ddefnydd yn parhau i fod yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn addas at eu dibenion.
- ii. Yn unol â hynny, mae'r papur ategol yn archwilio lefel y ddarpariaeth bresennol ac hygyrchedd yr adeiladau cymunedol sy'n gwasanaethu'r boblogaeth, yn erbyn set o safonau sy'n dilyn canllawiau arfer gorau, ac yn ystyried a yw'r rhain yn ddigonol i fodloni'r angen presennol, yn ogystal â gwybodaeth feintiol.
- iii. Bydd canfyddiadau'r asesiad yn llywio ystyriaeth y Cyngor o gyfraniadau cynllunio sy'n gysylltiedig â'r cynnydd yn y boblogaeth oherwydd datblygiadau tai newydd i gefnogi'r gwaith o ddarparu cyfleusterau newydd neu wella adeiladau cymunedol presennol.
- iv. Mae'r asesiad wedyn yn ystyried y rhagamcanion ar gyfer twf y boblogaeth a'r nifer o dai ar gyfer y cyfnod 2021–36 ym mhob ward ym Mro Morgannwg. Prif ganfyddiadau'r asesiad yw bod diffyg bach ar hyn o bryd yn wardiau Castleland a Court, y Barri, a ward Cornerswell ym Mhenarth, yn seiliedig ar gymhareb o 1 adeilad cymunedol i 4,000 o'r boblogaeth.
- v. O'i fesur yn erbyn swm gwirioneddol y gofod llawr adeiladau cymunedol fesul preswlydd, mae'r asesiad yn nodi diffyg yn ward Cornerswell, Penarth.
- vi. O ran hygyrchedd, nid yw aneddiadau Ewenni, Llysyrni a Chroes Cwrlwys yn cael eu gwasanaethu'n uniongyrchol gan gyfleuster cymunedol.
- vii. Pan fydd twf o ran tai hyd at 2036 yn cael ei ystyried, byddai twf (dyraniadau a datblygiad ffawdelw), yn golygu diffyg penodol o ran poblogaeth a thai, gan arwain at ddiffyg o 55 metr sgwâr o arwynebedd llawr cymunedol yn ward Illtud yn y Barri.
- viii. Mae canlyniadau holiaduron yr arolwg ansoddol yn dangos angen i uwchraddio adeiladau presennol i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio cymaint â phosibl.
- ix. Ar sail canfyddiadau'r asesiad, mae'r adroddiad yn argymhell bod y Cyngor yn parhau i geisio cyfraniadau cynllunio ar gyfer darpariaeth gymunedol newydd a/neu wedi'i

chynyddu lle mae diffygion eisoes yn bodoli a lle byddai'r twf arfaethedig yn nifer y tai yn y dyfodol yn arwain at fwy o alw am ddarpariaeth, neu lle mae'r cyfle yn bodoli i hwyluso gwelliannau i adeiladau sydd eisoes yn bodoli ac yn gwasanaethu'r gymuned ar hyn o bryd.



Cyngor Bro Morgannwg

Cyfarwyddiaeth Lleoedd

Swyddfeydd Dinesig

Heol Holltwn

Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk

www.bromorgannwg.gov.uk

